



## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

### ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgarwch dros y flwyddyn fwrdeistrefol a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2018. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i bob etholwr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

*Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi*

*Mae croeso i Gynghorwyr gynnwys gymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (fel uchafswm).*

**Y Cynghorydd: PD Jones**

**Plaid: Llafur**

**Ward: Maesydre**

#### **Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:**

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan CBSW):

Pwyllgor craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddi (Is-Gadeirydd)

Grŵp Cydlynu Craffu

Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes

Pwyllgor Archwilio

Pwyllgor Cynllunio

Cydbwyllgor ymgynghorol undebau athrawon a rhai nad ydynt yn undebau athrawon

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan y Cynghorydd):

Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (100%?).

Cyngor Cymuned Acton (bron i 80%?)

Cyfarfod pwyllgor y Grŵp Llafur (bron i 80%?)

Cyfarfod Cynghorwyr Canol Tref (bron i 80%)

#### **Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth:**

Roedd y llynedd yn amrywiol ac yn heriol. Roedd y gweithgarwch yn safle Groves yn golygu oriau hir yn mynychu cyfarfodydd a throsglwyddo gwybodaeth i drigolion a gafodd eu heffeithio gan faterion ar y safle. Ar yr un pryd, rhoi cymorth i wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl ddiameddiffyn. Gwellwyd y mesurau yn ystod y cyfnod hwn, i gyflymu dull cydweithredol er mwyn cwrdd â'u hanghenion. Gwagiwyd y safle o fewn 90 diwrnod.

Atebwyd ceisiadau rheolaidd am gymorth gan drigolion, y rhan fwyaf ohonynt o fewn 24 awr, a phob un o fewn 3 diwrnod. Mae'r cymorth a ddarparwyd wedi amrywio o ddiddymu Rhybudd Cosb Benodedig

(FPN) a roddwyd gan Kingdom a rhoi gwybod am dyllau yn y ffordd, i gael gwared o sbwriel/gwastraff yn ystod y diwrnod Glanhau Amgylcheddol ar 14 Mawrth 2018.

### **Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:**

Ymgynghorais â swyddogion y cyngor ac aelodau etholedig i helpu i ail-gychwyn y gwasanaeth bws i ward Maesydre. Gwasanaeth fesul awr i ddechrau, ond yna ei ymestyn i wasanaeth fesul dwy awr. Gwnaeth yr addasiad helpu i sicrhau bod trigolion yn y wardiau cyfagos hefyd yn derbyn mynediad at wasanaeth bws.

Rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr i ddarparu llety dros dro i'r digartref yn y Tŷ Nos. Caiff pedwar o gynhwyswyr eu haddasu yn lleoedd preswyl ac un cynhwysydd ei addasu i ddarparu lloches yn ystod tywydd hynod o oer. Rhoir y cyfle i bobl dethol, sy'n preswyl yn y Tŷ Nos, fyw mewn tŷ wedi'i addasu. Yn dilyn cyfnod prawf byddant yn derbyn cymorth i fyw mewn cartref parhaol. Caiff cyfranogwyr eu monitro gan staff cymorth proffesiynol. Mae potensial yma i greu profiad newid byd i'r rheiny sydd eisiau hynny. Disgwylir i'r cynhwyswyr gyrraedd ym mis Rhagfyr 2018.

### **Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd**

Rhaglen gynefino i gynghorwyr.

Hyfforddiant Cod Ymddygiad

Gweithdai'r Aelodau i Gyd – pynciau amrywiol (gormod i'w rhestru).

Pwyllgor Archwilio - Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CDP).

Pwyllgor Cynllunio – CPD.

Sgiliau craffu effeithiol - CDP

### **Sesiwn 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:**

Rwyf wedi cynrychioli Maesydre a CBSW gan fynychu digwyddiad ailagor Waterworld, darparu araith fer a chymryd rhan yn y seremoni torri'r rhuban. Mynychais Sioe Diwrnod y Cadoediad ar Sgwâr y Frenhines. Ymwelais â Champws lâl a thrafod agweddau amrywiol am addysg a rôl y Cyngor a'r Cynghorwyr. Ymwelais â Thwr Rhydfudr i drafod defnydd pellach o'r safle.

Parheais i gyfarfod ag Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg i hyrwyddo'r defnydd o safle Groves. Pwysais i gynnal astudiaeth ddichonoldeb y bydd Arweinydd y Cyngor yn adrodd yn ôl arni ym mis Medi.

Cydweithiais (yn drawsbleidiol) â phum cynghorydd arall canol y dref a swyddogion cynllunio i ddatblygu canllawiau cynllunio sy'n egluro'r ystyriaethau cynllunio sylfaenol yn ymwneud â llety; yn enwedig Tai Amlfeddiannaeth (HMOau).

**Llofnod y Cynghorydd: PD Jones**

**Dyddiad:26 Gorffennaf 18**